Cofnodion Cyfarfod o Gyngor Llawn Cyngor Tref Llandeilo, a gynhaliwyd ar nos Fercher y 23ain o Fai 2018 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 7.30yh.

Presennol: Y Maer y Cyng. Eifion Davies, y Cyng. Edward Thomas, y Cyng. Robert Jones, y Cyng. Colin Jenkins, y Cyng. Lesley Prosser, y Cyng. Owen James, y Cyng. Christopher Parish, y Cyng. Christoph Fischer, y Cyng. Dawn Wallace, y Cyng. Rebecca Butcher, y Cyng. Geraint Price
Mr Roger Phillips (Clerc Tref)
Mr Christopher Plummer (Swyddog Cyllid)
Mr Desmond Davies (Swyddog Technegol)

Ymddiheuriadau: Y Cyng. Gordon Kilby, Mr Christopher Plummer (Swyddog Cyllid).

Cyn i'r cyfarfod gychwyn, gofynnodd y Maer am funud o dawelwch yn dilyn marwolaeth Mr John Morgan, a fu'n gwasanaethu fel Cynghorydd Tref.

Materion yn ymwneud â'r Heddlu.
Adroddodd y SCCH Roger Anthony mai ychydig iawn o ddigwyddiadau a gafwyd yn ystod y mis. Roedd penwythnos prysur i ddod, gyda nifer o ddigwyddiadau'n cael eu cynnal. Roedd dau fachgen wedi cael eu harestio, wedi i feiciau cwad gael eu dwyn o Lanfynydd. Roedd yr Heddlu'n monitro Parc Penlan, yn dilyn ambell achos o losgi.

Cof 47 / Mai / 18 Datganiadau o Fuddiant Dim

Cof 48 / Mai / 18 Adroddiad y Cynghorydd Sir
Roedd y Cyng. Edward Thomas wedi dosbarthu ei adroddiad ymlaen llaw. Adroddodd fod Meddygon Teulu Llandeilo yn awyddus i fwrw ymlaen â phrynu'r 'hen lyfrgell', a'u bod yn aros am benderfyniadau Ymddiriedolaeth Hywel Dda.
Bydd Banc Lloyds yn cau ar y 23ain o Fai, ond fe fydd gwasanaeth bancio symudol ar gael yn wythnosol. Roedd y banc wedi rhoddi cypyrddau ffeilio, desgiau a chadeiriau i'r ysgolion Cynradd.
Bydd Ffair Gwladwyr Cymru yn cael ei chynnal ar y penwythnos.
Bydd Ymddiriedolaeth Hywel Dda yn cynnal ymgynghoriad agored yn Llandybie ddydd Iau, mewn perthynas â'u cynlluniau ar gyfer y dyfodol.

Cof 49 / Mai / 18 Cofnodion Blaenorol
Darllenwyd cofnodion Cyfarfod y Cyngor Llawn, a gynhaliwyd yn y Siambr yn Neuadd y Sir ar nos Fercher y 25ain o Ebrill 2018, a chadarnhawyd eu bod yn gofnod cywir.
Cynigwyd hyn gan y Cyng. Eifion Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Owen James. Roedd pawb o blaid.

Cadarnhawyd bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Materion Cyffredinol, a gynhaliwyd yn y Siambr yn Neuadd y Sir ar nos Fercher y 9fed o Fai 2018, yn gofnod cywir gyda'r diwygiadau canlynol:-
Cynigwyd hyn gan y Cyng. Eifion Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Dawn Wallace. Roedd pawb o blaid.

Darllenwyd cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cyllid, a gynhaliwyd yn y Siambr yn Neuadd y Sir, ar nos Fercher y 9fed o Fai 2018, ac argymhellwyd eu bod yn cael eu derbyn gyda'r diwygiadau canlynol:-
Cyrhaeddodd y Cyng. Edward Thomas yn hwyr oherwydd ymrwymiadau eraill. Fe wnaeth y Cyng. Thomas ymatal rhag pleidleisio ar yr eitem yn ystyried rhodd i'r Ŵyl Jas.
Cynigwyd hyn gan y Cyng. Colin Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng. Dawn Wallace. Roedd pawb o blaid.

Cof 50 / Mai / 18 Materion yn codi o'r cyfarfodydd blaenorol
Ynglŷn â Cof 36/Mai/18 Roedd y Cyng. Colin Jenkins am i'r Swyddog Cyllid i goladu'r anfonebau a dalwyd gan y Cyngor am welliannau i Barc Le Conquet. Yna, byddai'r Clerc yn cyflwyno'r rhain i CSG, er mwyn hawlio hyd at £10,000 a glustnodwyd ar gyfer y gwaith hwn. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Robert Jones. Roedd pawb o blaid.

Cof 51 / Mai / 18 Gohebiaeth yn galw am ymateb

1. Graham Tuckwood, y Lleng Prydeinig Brenhinol, Ysgrifennydd Llandeilo. Gwahoddiad i fynychu'r cyfarfod nesaf ar y 25ain o Fai. Gallai pob un o'r Cynghorwyr ddod yn Aelodau fel unigolion. Nodwyd.
2. Cynllun Symudedd Shopmobility, Rhodfa Santes Catherine, Caerfyrddin. Cynigodd y Cyng. Rebecca Butcher na ddylid rhoi rhodd gan na ddarparwyd mantolen, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Christoph Fischer. Roedd pawb o blaid.
3. Aled Sion, Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru. Yn rhoi gwybod y cynhelir cyfarfod yn Neuadd y Gwendraeth, Drefach ar y 25ain o Fehefin am 7.00yh. Gofynnwyd i'r Clerc i anfon copi o'r llythyr i bob un o'r Cynghorwyr.
4. Marie Curie, yn gofyn am wirfoddolwyr i drefnu partïon te i'r elusen. Nodwyd.
5. Seafarers UK, ynglŷn â Diwrnod y Llynges Fasnachol ar y 3ydd o Fedi 2018. Cynigodd y Cyng. Geraint Price bod y Cyngor yn prynu baner 183 x 91cm am £28.00, i'w harddangos ar y polyn fflagiau ym Mharc Penlan ar y diwrnod hwnnw. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Lesley Prosser. Cafodd y cynnig ei gario.
6. Lyn Broderick, Swyddog Datblygu Chwaraeon CSG, yn gofyn am gael defnyddio Parc Le Conquet ar gyfer gweithgareddau i blant ar ddydd Iau'r 31ain o Fai. Doedd dim gwrthwynebiad.
7. Marie Louise Tucker, CSG, llythyr yn rhoi gwybod y bydd ffens newydd yn cael ei chodi ar ffin Parc Le Conquet. Nodwyd.
8. Fforwm Craffu CSG. Gwahoddiad i'r Cynghorwyr gyfranogi a rhoi eu barnau i'r Fforwm. Nodwyd.
9. CDLl Diwygiedig CSG 2018-2033, ymgynghoriad i bobl i gofrestru tir. Nodwyd.

Cof 52 / Mai / 18 Gohebiaeth er gwybodaeth
1. D.A.Jones, ynglŷn â gwasanaethau coffa. Nodwyd.
2. Henoed Llandeilo a'r Cylch, llythyr o ddiolch am rodd y Cyngor. Nodwyd.

Cof 53 / Mai / 18 Materion Ariannol

1. Cyfrifon i'w talu.

	Net	TAW	Cyfanswm
Active Surveillance CCTV	£ 4,013.80	£ 802.76	£ 4,816.56*
Nwy Prydain (trydan) dd	£ 121.28	£ 6.06	£ 127.36*
Capel Newydd (hurio ar gyfer cyngerdd)	£ 50.00		£ 50.00#
H.Gwynne FencingDDPLQ B1 toriad	£ 224.40	£ 44.68	£ 269.40*

dd - debyd uniongyrchol # - siec * - bacs. Argymhellwyd bod y rhain yn cael eu talu. Cynigwyd gan y Cyng. Lesley Prosser ac eiliwyd gan y Cyng. Dawn Wallace. Roedd pawb o blaid.

Cof 54 / Mai / 18 Materion Ariannol Eraill

1. Ceisiadau am gymorth ariannol gan Ŵyl Gerdd Llandeilo.
Cynigodd y Cyng. Eifion Davies bod y Clerc yn gofyn am y cyfrifon llawn cyn i'r cais gael ei ystyried, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Edward Thomas. Roedd pawb o blaid.
2. Roedd y Maer yn dymuno diolch i'r Cyng. Gordon Kilby am drefnu dau gyngerdd gyda Chantorion Llandeilo, er budd elusennau'r Maer. Codwyd £1,400.

Cof 55 / Mai / 18 Adroddiad y Swyddog Technegol

Roedd Mr Davies wedi dosbarthu ei adroddiad ymlaen llaw. Roedd Mr Davies wedi derbyn dyfynbris o £1,050 gan Hugh Gwynne, am y gwaith o gynnal a chadw'r coed ym Mharc Penlan, yn dilyn adroddiad David Rice. Cynigodd y Cyng. Edward Thomas bod y dyfynbris yn cael ei dderbyn a bod Hugh Gwynne yn cael ei awdurdodi i gwblhau'r gwaith, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Robert Jones. Cafodd y cynnig ei gario gan fwyafrif, gyda'r Cyng. Rebecca Butcher yn ymatal.

Cof 56 / Mai / 18 Y Diweddaraf ar Drosglwyddo Asedau

Cyflwynodd y Cyng. Edward Thomas ei adroddiad. Roedd wedi trefnu i Richard Lloyd, Swyddog Cynnal a Chadw CSG, i chwistrellu'r cyrtiau Tennis, er mwyn cael gwared ar yr algâu. Byddai hyn yn cael ei wneud yn rhad ac am ddim.
Cytunwyd i drefnu cyfarfod gyda'r Clwb Tennis, er mwyn trafod trefniadau rheoli yn y dyfodol.
Gofynnwyd i'r Clerc i gysylltu â HAGS, i ofyn am i'r ffens diogelwch gael ei thynnu i lawr cyn gynted ag sy'n bosib.

Cof 57 / Mai / 18 Doedd dim materion yn ymwneud â Thrawsgludiaeth a Phriffyrdd

Cof 58 / Mai /18 Adroddiad y Maer

Gan mai dyma oedd ei gyfarfod olaf fel Maer yn 2017-18, diolchodd y Cyng. Eifion Davies i bob un o'r Cynghorwyr a'r Swyddogion am eu cefnogaeth yn ystod y flwyddyn. Dymunodd flwyddyn lwyddiannus i'r Cyng. Edward Thomas fel Maer yn 2018/19.
Rhoddodd y Maer ei adroddiad ar y digwyddiadau a fynychodd ar ran y Cyngor:-

26ain-29ain o Ebrill	Gŵyl Lenyddol Llandeilo. Diolchodd i'r Cyng. Christoph Fischer am drefnu'r holl ddigwyddiadau.
26ain o Ebrill	Digwyddiad agor Llyfrgell Llandeilo.
27ain o Ebrill	Noson yng nghwmni Eddie Butler yn y Cottage Inn, i lansio ei lyfr newydd.
28ain o Ebrill	Cyngerdd gan Gantorion Teilo, wedi'i drefnu gan y Cyng. Gordon Kilby.
29ain o Ebrill	Mynychwyd amrywiol ddigwyddiadau'r Ŵyl Lenyddol yn y dref.
11eg o Fai	Mynychwyd cyngerdd codi arian ym Mhorthyrhyd, er budd Sefydliad Aren Cymru.

19eg o Fai Mynychwyd gêm ddiwethaf y tymor Clwb Rygbi Llandeilo.
21ain o Fai Mynychwyd noson gyflwyno Clwb Pêl-droed Teigrod Teilo.

Cof 59 / Mai / 18 Adroddiadau Eraill

1. Adroddiad y Pwyllgor Gweithdrefnau.
   Rhoddodd y Clerc adroddiad llafar ar gyfarfod y Pwyllgor Gweithdrefnau, a gynhaliwyd ar yr 16eg o Fai 2018.
   Dosbarthodd y Clerc wybodaeth am y Ddeddf Diogelu Data newydd a'r Cyfarwyddebau newydd i Baneli Cydnabyddiaeth Ariannol. Nodwyd

Cof 60 / Mai / 18 Doedd dim eitemau arall o fusnes yr oedd y Cadeirydd, oherwydd amgylchiadau arbennig, yn dymuno eu hystyried fel mater o frys, yn unol ag adran 100 B (4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.50yh.